Dŵr Cymru
Welsh Water

# FLINTSHIRE - BURST WATER MAIN (AUGUST 2025)



# Discoloured water

## What causes discoloured water?

Discoloured water which is yellow, orange, brown cloudy or black is caused by particles of iron or manganese, which have usually come from cast iron water mains, and have settled over time in the network.

A burst water main, high demand during hot and dry periods, or improvement works on our water mains will increase the water flow and can stir up the sediment.

Discolouration doesn't usually last more than 24 hours. The only way to clear it is to let it work its way through the system.

## Is my water safe to drink?

Although it doesn't look nice, the levels of iron and manganese found in discoloured tap water are unlikely to be harmful to your health.

## Useful tips

— You might like to run your taps to help flush the water through. If you're on a water meter though, don't worry, we'll give you a credit towards your next bill.

— Don't do any laundry as the discolouration may stain the washing. If this happens, wait until the water is clear and wash your clothes as normal.

— If you've had discoloured water for more than 24 hours then give us a call, we may need to come and flush the system to help it along its way.

Sometimes discoloured water may be due to a problem with the pipes or plumbing inside your property. If your neighbours' water is clear, and water from your kitchen cold tap is clear, any discoloured water from any other taps is usually a sign of an issue inside your property. If this is the case, you should contact your plumber for advice,

Don't worry, if you don't have your own plumber, there's a list of approved plumbers on the Water Regulations Advisory Service website (wras.co.uk).

**Need more information or advice?**

**dwrcymru.com**
**0800 052 0130**

You can also visit the Drinking Water Inspectorate website at **dwi.gov.uk**

Dŵr Cymru
Welsh Water

# SIR FFLINT - PIBELL DDŴR WEDI BYRSTIO (AWST 2025)



## Dŵr afliw

### Beth sy'n achosi dŵr afliw?

Gronynnau o haearn neu fanganîs sydd wedi dod o brif bibellau dŵr haearn bwrw, ac sydd wedi setlo dros amser yn y rhwydwaith, sy'n achosi dŵr afliw sy'n felyn, yn oren, yn frown gymylog neu'n ddu fel rheol.

Mae rhwyg mewn prif bibell ddŵr, galw mawr mewn cyfnodau o dywydd poeth a sych neu gwaith gwella ar ein rhwydwaith, yn cynyddu llif y dŵr, ac mae hyn yn gallu corddi'r llaid.

Nid yw'r afliwio'n para mwy na 24 awr fel rheol. Yr unig ffordd o'i glirio yw gadael iddo weithio'i ffordd drwy'r system.

### A yw'r dŵr yn ddiogel i'w yfed?

Er nad yw'n edrych yn ddymunol, mae lefelau'r haearn a'r manganîs a geir mewn dŵr tap afliw yn annhebygol o fod yn niweidiol i'ch iechyd.

### Awgrymiadau defnyddiol

- Mae'n syniad da rhedeg eich tapiau i helpu i fflysio'r dŵr trwy'r pibellau. Os oes mesurydd dŵr gennych, peidiwch â phoeni am y byddwn ni'n rhoi credyd i chi tuag at eich bil nesaf.
- Peidiwch â golchi unrhyw ddillad, am y gallai'r dŵr afliw adael staen arnynt. Os bydd hyn yn digwydd, arhoswch nes bod y dŵr yn glir a golchwch eich dillad eto fel arfer.
- Os yw'ch dŵr wedi bod yn afliw am fwy na 24 awr, rhowch alwad i ni. Mae'n bosibl y bydd angen i ni ddod allan i fflysio'r system er mwyn rhoi hwb i bethau.

Weithiau, problem gyda'r pibellau neu'r plymio y tu fewn i'ch eiddo sy'n achosi'r afliwio. Os yw dŵr eich cymdogion yn glir, a'r dŵr o dap dŵr oer eich cegin yn glir, ond bod dŵr afliw yn dod allan o unrhyw dapiau eraill, mae hynny'n awgrymu bod problem y tu fewn i'ch eiddo. Os felly, dylech gysylltu â'ch plymwr i ofyn am gyngor.

Peidiwch â phoeni os nad oes plymwr gennych, mae rhestr o blymwyr cymeradwy ar wefan y Gwasanaeth Ymgynghorol ar Reoliadau Dŵr (wras.co.uk).

**Angen cyngor neu wybodaeth?**

**dwrcymru.com**
**0800 052 0130**

Neu ewch i wefan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed sef **dwi.gov.uk**